Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.11.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# TRAFNIDIAETH: Gweithredu diwydiannol i effeithio ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru (TrC) ar 5, 7 a 9 Tachwedd 2022

Cynghorir cwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru (TrC) i gynllunio eu teithiau'n ofalus dros y dyddiau nesaf gan y bydd gwasanaethau'n cael eu tarfu gan dri diwrnod o weithredu diwydiannol cenedlaethol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://trc.cymru/gweithredu-diwydiannol

# CYMORTH: Cymorth Busnes am ddim i Fusnesau Bwyd Cymru

Hwb bwyd a diod yw Larder Cymru sy'n dod â chynhyrchwyr a phroseswyr rhanbarthol at ei gilydd i'w helpu nhw i ymateb i'r cyfleoedd i gyflenwi'r sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Mae Larder Cymru yn gwahodd cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd i gynnig eu hunain i gymryd rhan yn y prosiect; bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael mynediad at ymgynghorydd Larder Cymru a fydd yn mentora a chynghori trwy sesiynau un-i-un a hyfforddiant. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.lardercymru.wales/cy/astudiaethau-achos/cymorth-busnes-am-ddim-i-fusnesau-bwyd-cymru

# ARIANNU: Cronfa Sgiliau Creadigol yn cau 7 Tachwedd 2022

Bydd Cronfa Sgiliau Creadigol Llywodraeth Cymru, sydd yn helpu i ddatblygu'r dalent bresennol a'r genhedlaeth nesaf o dalent ym meysydd teledu a ffilm, cerddoriaeth a chynnwys digidol, yn cau am geisiadau ar 7 Tachwedd 2022. Mae manylion pellach, gan gynnwys sut i ymgeisio a chanllawiau, ar gael ar:

https://www.cymrugreadigol.cymru/cy/cronfa-sgiliau-creadigol

# COVID-19: Pecyn cymorth cyfathrebu Cadwch Gymru'n Ddiogel

Mae pobl ledled Cymru yn cael eu hannog i gynnal ymddygiadau allweddol sy'n amddiffynnol i helpu i leihau'r risg o ddal COVID-19, a heintiau anadlol eraill, fel y ffliw, a chadw eu hunain a'r bobl o'u cwmpas yn ddiogel. Mae asedau digidol i fusnesau eu defnyddio i gefnogi a chyfathrebu'r canllawiau ar gael ar:

https://bit.ly/3ocKiDi

# TRETH: Hunanasesiad – peidiwch ag anghofio datgan taliadau COVID-19

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn atgoffa cwsmeriaid Hunanasesu bod yn rhaid iddynt ddatgan taliadau COVID-19 yn eu ffurflen dreth ar gyfer blwyddyn dreth 2021 i 2022. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3T6sF4W

## GWOBRAU: Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2023

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach 2023 yr FSB, sydd ar agor i bob busnes bach a chanolig. Am fwy o wybodaeth, ac i gystadlu, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/enter.html

## DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf sy'n rhoi cyngor ymarferol i chi i helpu hyrwyddo'ch busnes a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru